

DIPLOMA LEFEL 4 Y SEFYDLIAD SIARTREDIG ADEILADU (CIOB) MEWN RHEOLAETH SAFLE

Cyllidir yn llawn gan Ganolfan Arloesi Adeiladu Cymru (CWIC) os ydych yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig yn y diwydiant adeiladu

Mae'r cymhwyster Lefel 4 CIOB hwn yn llwybr dilyniant delfrydol i Addysg Uwch. Gallwch chi gynyddu eich gwybodaeth ac ennill cymhwyster Lefel 4, neu gallwch ddefnyddio'r cwrs fel cymhwyster pontio i lefel 5, 6 a thu hwnt.

Os ydych yn edrych am yrfa mewn pensaernïaeth, cynllunio awdurdod lleol, rheoli adeiladu neu addysgu, neu os ydych yn ymwneud ag agweddau rheolaeth prosiect, naill ai adeiladu o'r newydd neu waith adnewyddu / adfer / cynnal a chadw, cynllunio, trefnu crefftwy'r allanol, trefnu'r gwaith o archebu a derbyn deunyddiau, yna dyma'r cwrs i chi.

Mae'r cwrs Rheolaeth Safle yn rhoi'r wybodaeth greiddiol i chi ar gyfer y Diploma Lefel 6 S/NVQ mewn Rheolaeth Safle Adeiladu ac mae wedi'i gynllunio i ateb gofynion y rheiny sy'n gweithio mewn, neu'n hyfforddi ar gyfer swydd rheolaeth safle.

Bydd cwblhau'n llwyddiannus:

- yn darparu Cymhwyster Goruchwyliaeth Lefel 4
- yn galluogi unigolion i wneud cais am Gerdyn Du'r Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (CSCS)
- gyda chredydau ychwanegol, bydd yn caniatáu i unigolion symud ymlaen i ail flwyddyn y cymhwyster Tystysgrif Genedlaethol Uwch (HNC).

Unedau a gwmpesir:

1. Rheolaeth Iechyd, Diogelwch, Lles a Rheoli Risg o fewn Safle Adeiladu - gosodir yr asesiad gan CIOB
2. Cyfrifoldebau Cytundebol a Chyfreithiol o fewn Amgylchedd Adeiladu
3. Gwaith Amcangyfrif a Mesur o fewn yr Amgylchedd Adeiladu
4. Rheolaeth Technoleg Adeiladu Modern

Gofynion Mynediad:

Cymhwyster lefel 3 mewn unrhyw alwedigaeth grefft e.e. Gosod Brics, Gwaith Saer, Gwaith Plymwr, Trydanol neu Beintio. Hefyd yn berthnasol i weithwyr profiadol, byddai profiad rheolaeth blaenorol yn hanfodol. Mae dealltwriaeth o'r gofynion Iechyd a Diogelwch o fewn Adeiladu yn fanteisiol.

Cyflwynir ar Gampws Aberteifi.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Huw Thomas

☎ 01239 612032

✉ huw.thomas@ceredigion.ac.uk



colegceredigion

☎ 01239 612032

🌐 www.ceredigion.ac.uk

✉ enquiries@ceredigion.ac.uk